

RHANDIROEDD

TYFWCH EICH CYNNYRCH EICH HUN: Canllaw i Randiroedd Caerdydd



**Gwasanaethau Parciau a Chwaraeon
Parc y Mynydd Bychan
King George V Drive
CAERDYDD
CF14 4EP**

**Ffôn: 029 2068 4000
Ebost: Parks@cardiff.gov.uk**

Ar gyfer pwy mae'r llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer pawb sy'n ymwneud, â rhandiroedd, ond fe'i anelir yn benodol at ddeiliaid rhandir newydd. Mae'n cynnwys gwybodaeth hanfodol am eich cytundeb tenantiaeth, gwybodaeth am sut i dalu am eich llain, pwyntiau cyswllt a chanllawiau ar sut i drin eich rhandir.

I gael gwybodaeth fanwl am sut y caiff Rhandiroedd Caerdydd eu rheoli a rolau penodol Ysgrifennydd y safle a phartïon eraill, mae'r llyfryn, **Rheoli Rhandiroedd: Canllaw Rheoli Rhandiroedd Caerdydd**, ar gael ar gais gan ysgrifennydd y safle.

Cystadleuaeth deiliaid Rhandiroedd Caerdydd

Noddir gan: Canolfan Arddio Caerffili



MYNEGAI

1.0	DEALL RHEOLAU'R RHANDIR	...	...	...	...	...	...	5
	Beth yw diben y rheolau?	...	...	...	...	...	...	5
	Crynodeb o'r rheolau	...	...	...	...	...	...	5
	Beth sy'n digwydd os byddaf yn torri'r rheolau?	...	...	...	...	...	...	6
2.0	TALU AM EICH LLAIN	...	...	...	...	...	...	7
	Anfonebau ar gyfer rhandiroedd	...	...	...	...	...	...	7
	Sut y caiff fy nhaliad ei gyfrifo?	...	...	...	...	...	...	7
	Rhent rhandir gostyngol	...	...	...	...	...	...	7
3.0	PWY I GYSYLLTU Â NHW	...	...	...	...	...	...	9
	Ysgrifennydd y Safle	...	...	...	...	...	...	9
	Cymdeithasau Rhandir	...	...	...	...	...	...	9
	Swyddog Rhandiroedd y Cyngor	...	...	...	...	...	...	9
4.0	CYCHWYN ARNI	...	...	...	...	...	...	11
	Marcio'ch llain	...	...	...	...	...	...	11
	Canllawiau syml	...	...	...	...	...	...	11
	Pa offer y mae arnoch eu hangen?	...	...	...	...	...	...	11
5.0	CANLLAW CYFLYM YNGHYLCH PLANNU	...	...	...	...	...	...	13
	Sut mae cychwyn?	...	...	...	...	...	...	13
	Beth i'w dyfu?	...	...	...	...	...	...	13
	Canfyddwch beth yw natur eich pridd	...	...	...	...	...	...	13
	Cylchdroi cnydau	...	...	...	...	...	...	14
	Ffrwythau	...	...	...	...	...	...	14
	Gwrtaith Gwyrdd	...	...	...	...	...	...	14
	Bywyd Gwylt ar Randiroedd	...	...	...	...	...	...	14
6.0	TAI GWYDR, SIEDIAU, TWNELI POLYTHEN A STRWYTHURAU ERAILL							15
7.0	CYNNAL LLAIN IACH	...	...	...	...	...	...	17
	Compostio	...	...	...	...	...	...	17
	Cyflenwadau dŵr y rhandir	...	...	...	...	...	...	17
	Casglu dŵr glaw	...	...	...	...	...	...	17

Gwasanaethau Parciau a Chwaraeon, King George V Drive East, Parc y Mynydd Bychan,
CAERDYDD CF14 4EP
Ffôn: (029)20684000

E-bost: parciau@caerdydd.gov.uk

1.0 DEALL RHEOLAU'R RHANDIR

Beth yw diben y rheolau?

Mae'r Ddeddf Randiroedd a'ch Cytundeb Tenantiaeth yn pennu sut y gellir defnyddio'ch rhandir. Mae'r cytundeb yn ddogfen gyfreithiol, a gallai methu cydymffurfio ag ef arwain at derfynu'ch tenantiaeth.

Crynodeb o'r rheolau

Sylwer: Rhoddir y crynodeb hwn fel canllaw i'ch helpu i ddeall eich cytundeb tenantiaeth. Fe'i rhoddir er gwybodaeth yn unig, ac nid yw wedi'i rwymo mewn cyfraith. Nid yw'n disodli telerau ac amodau eich Cytundeb Tenantiaeth Rhandir.

O dan eich Cytundeb Tenantiaeth Rhandir, disgwylir i chi:

1. Gadw eich llain mewn cyflwr da

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi:

- Drin eich holl lain, ei chadw'n rhydd rhag chwyn a rhoi digon o wrtaith arni.
- Clirio'r holl chwyn i'w hatal rhag mynd i had ac achosi niwsans i eraill.
- Cadw'r llwybrau rhwng eich llain a'r leiniau eraill o'i hamgylch mewn cyflwr da ac yn rhydd rhag unrhyw rwystr.
- Arddangos rhif eich llain yn glir oddi mewn i'r llain honno.
- Cadw unrhyw siediau, tai gwydr neu strwythurau eraill mewn cyflwr da, neu efallai y gofynnir i chi gael gwared ohonynt.
- Gadael y llain mewn cyflwr da, yn rhydd rhag unrhyw ysbwriel neu strwythurau os penderfynwch derfynu'ch tenantiaeth. Os na wnewch hynny, bydd y Cyngor yn mynnu eich bod yn ad-dalu'r gost o wneud.

2. Defnyddio'ch rhandir i'r diben a gymeradwywyd yn unig

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi:

- Ddefnyddio'ch rhandir i dyfu cynnyrch yn unig. Ni chewch gadw da byw ac ni chaniateir i chi dorri na thocio coed er mwyn cael pren. Fodd bynnag, caniateir i chi docio coed ffrwythau ar eich llain.
- Meithrin eich llain er eich budd chi'ch hun ac er budd eich ffrindiau. Ni ddylid defnyddio rhandiroedd i ddibenion masnachu, busnes nac adwerthu.
- Trin y llain eich hun. Ni ddylid is-osod unrhyw ran o'r llain i unrhyw un arall.
- Cael caniatâd i leoli unrhyw adeilad neu strwythur ar y llain (gweler Adran 6). Ni ddylid defnyddio unrhyw adeilad ar y safle fel llety i gysgu ac ni ddylech osod unrhyw wyneb caled na phatio ar eich llain.

3. Bod yn ddeiliad rhandir cyfrifol:

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi:

- Sicrhau eich bod yn cloi'r gât/gatiau i'r rhandir ar ôl mynd i mewn i'r safle neu ei adael.
- Cadw'ch allweddi at eich defnydd eich hun. Peidio rhoi allweddi'r safle i unrhyw un arall na chaniatáu i neb arall ymweld â'r safle heb oruchwyliaeth.
- Sicrhau bod eich ci yn aros ar eich llain drwy'r amser os daw gyda chi i'r safle
- Goruchwyllo unrhyw blant ddaw gyda chi i'r llain yn agos, gan sicrhau eu bod yn aros ar eich llain. Nid cae chwarae yw'r safle rhandiroedd.
- Osgoi achosi niwsans, difrod neu annifyrrwch i'r Cyngor, i denantiaid rhandiroedd eraill neu i breswylwyr/meddianwyr eiddo/tir cyfagos. Gallai niwsans gynnwys rhegi neu ddefnyddio ieithwedd gamdriniol, meddwi, chwarae cerddoriaeth uchel neu gynnuau coelcerthi. Ni chaniateir tanau ar leiniau rhandir.

- Sicrhau na cheir unrhyw ddeunyddiau gwenwynig, peryglus neu garsinogenaidd ar lain y rhandir. Ni chaniateir defnyddio deunyddiau sy'n cynnwys asbestos.
- Bod yn gwrtais gyda deiliaid rhandiroedd eraill. Peidio ymddwyn mewn modd bygythiol na chamdriniol ar y safle, boed hynny'n gorfforol neu ar lafar.
- Gwneud yn siŵr bod eich llain yn cael ei chadw'n daclus. Ni chaniateir i chi ddod â gwastraff domestig i'r safle na chaniatáu i unrhyw ddeunyddiau gwastraff gronni ar y llain. Ni ddylid defnyddio carpedi i orchuddio'r tir cyn plannu. Gweler adran 5 am ffyrdd eraill o leihau twf chwyn.
- Cadw'r holl uwchbridd ac isbridd ar eich llain. Ni chewch werthu na chael gwared ag unrhyw fwyn, graean, tywod na chlai o safle'r rhandir.
- Mynd i safle'r rhandir pan fydd hi'n olau dydd yn unig. Peidiwch â mynd yno cyn i'r haul godi neu wedi i'r haul fachlud.

4. Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi:

- Gompostio'r holl lysiau gwastraff ar eich llain, a chompostio ac ailgylchu cymaint o ddeunydd ag sy'n bosibl.
- Gwneud defnydd cynnil o ddŵr a chronni dŵr glaw lle bo modd. Ystyriwch gasglu dŵr glaw mewn tanciau dŵr i'w defnyddio ar y llain. Peidiwch â defnyddio pibellau dŵr.

5. Sicrhau caniatâd priodol gan y Cyngor pan fo angen

Bydd arnoch angen caniatâd ffurfiol er mwyn:

- Plannu coed (ac eithrio coed ffrwythau nad ydynt yn tyfu'n fawr)
- Codi sied, tŷ gwydr, ffens neu unrhyw strwythur arall ar y rhandir, neu greu pwl arno.

6. Sicrhau bod taliadau a chofnodion yn gyfredol

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi:

- Fod yn breswlydd yng Nghaerdydd i fod yn ddeiliad rhandir, oni fydd y Cyngor yn cydsynio fel arall.
- Talu'ch rhent yn brydlon ar dderbyn eich bil
- Cysylltu â'r Cyngor os byddwch yn newid eich cyfeiriad
- Hysbysu'r Cyngor a'r Ysgrifennydd Safle pan fyddwch yn penderfynu rhoi'r gorau i'ch llain. Mae gennym restrau aros ar gyfer yr holl safleoedd.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn torri'r rheolau?

Gallwn derfynu'ch tenantiaeth os na fyddwch yn cydymffurfio â rheolau'r rhandir. Yn dibynnu ar natur y tor-rheol, gwneir hyn drwy un o ddwy ffordd:

1. Torri rheolau, gan gynnwys peidio talu'r rhent

Bydd y Cyngor yn cyflwyno rhybudd i chi, mewn ysgrifen, o'r bwriad i derfynu'ch tenantiaeth.

2. Bod y tenant neu unrhyw unigolyn a wahoddir ganddo i safle'r rhandir wedi'i gael yn euog o ddwyn o unrhyw un o leiniau'r rhandir

Daw eich Cytundeb Tenantiaeth i ben ar unwaith, heb unrhyw rybudd.

2.0 TALU AM EICH LLAIN

Anfonebau ar gyfer rhandiroedd

Caiff anfonebau ar gyfer lleiniau newydd eu cyflwyno cyn gynted ag y bydd y Cyngor wedi derbyn cytundeb tenantiaeth a ffurflen ymgymeryd wedi'u llenwi. Caiff anfonebau eu cyhoeddi'n flynyddol ym mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn Rhandiroedd sy'n dechrau o 2 Chwefror bob blwyddyn.

Sut y caiff fy nhaliad ei gyfrifo?

Dyma sut y byddwn yn cyfrifo'ch taliad cyntaf:

- Bydd tenantiaid sy'n derbyn rhandir cyn 1 Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn, yn cael anfoneb gennym am y flwyddyn honno.
- Bydd tenantiaid sy'n derbyn rhandir rhwng 1 Rhagfyr ac 1 Chwefror yn cael anfoneb rhandir ar ôl 1 Ionawr ar gyfer y flwyddyn rhandiroedd ganlynol.
- Caiff un anfoneb ei llunio ar gyfer pob llain, a bydd pob anfoneb yn cynnwys y rhent a thaliadau dŵr.
- Sylwch y cewch wybod am unrhyw gynnydd yn y rhent blynyddol 28 diwrnod o leiaf cyn i anfoneb gael ei gyrru atoch.

Bydd y dulliau talu wedi'u rhestru'n glir ar bob anfoneb a dderbynnir gan denantiaid. Dylid gwneud pob siec yn daladwy i **Cyngor Caerdydd**.

Rhent rhandir gostyngol

Mae gan denantiaid hawl i dalu llai o rent am lain o randir os ydynt:

- Dros 60 oed
- Yn dal cerdyn MAX

Dylech roi nodi eich dyddiad geni a chyflwyno manylion eich cerdyn MAX wrth lofnodi'ch ffurflen cytundeb tenantiaeth.

3.0 PWY I GYSYLLTU Â NHW

Ysgrifennydd y Safle

Cyn gynted ag y byddwch wedi llenwi'ch ffurflen cytundeb tenantiaeth a thalu'r blaendal perthnasol, bydd Ysgrifennydd y Safle'n rhoi allwedd safle rhandir i chi. Byddwch yn cael eich blaendal yn ôl wrth ddychwelyd yr allwedd i Ysgrifennydd y Safle ar derfyn eich tenantiaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'ch llain, eich safle rhandir neu'ch daliadaeth rhandir yn gyffredinol, cysylltwch â'ch Ysgrifennydd Safle am gymorth yn gyntaf.

Cymdeithasau Rhandir

Ceir Cymdeithas Rhandir ar y rhan fwyaf o safleoedd rhandir yng Nghaerdydd. Gall y rhain fod o fudd mawr i chi fel tenant rhandir, gan roi cyngor a gwybodaeth, mynediad rhwydd at ddeunyddiau garddio am bris gostyngol a lleisio'ch sylwadau a'ch pryderon. Gellir holi'ch Ysgrifennydd Safle os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch aelodaeth.

Swyddog Rhandiroedd y Cyngor

Dylid cyfeirio at sylw'r Cyngor unrhyw ymholiadau ynghylch ceisiadau am fwy o randiroedd, terfynu tenantiaeth rhandir neu newidiadau yn eich amgylchiadau personol sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal eich rhandir.

4.0 CYCHWYN ARNI

Cyn gynted ag y bydd yr holl bartïon wedi llenwi'ch ffurflen Cytundeb Tenantiaeth, mae'ch tenantiaeth wedi dechrau'n swyddogol. Dylai tenantiaid newydd ddechrau gwaith ar eu rhandir yn ddi-oed, yn unol â'r Ffurflen Ymgymeryd. Ceir galw mawr am randiroedd ar draws Caerdydd, a gallai methiant i feithrin eich llain arwain at derfynu'ch tenantiaeth.

Marcio'ch llain

Yn gymorth i weinyddu rhandiroedd, gofynnir i chi sicrhau bod rhif eich llain wedi'i arddangos yn glir mewn man amlwg ar eich llain. Ni ddylech symud unrhyw begiau marcio.

Canllawiau syml

- Byddwch yn barod i roi o'ch amser yn rheolaidd - gwneud ychydig yn aml sydd orau
- Peidiwch â thrin y pridd ond pan fydd amgylchiadau'n ffafriol. Os bydd y pridd yn rhy wlyb, byddwch yn gwneud mwy o ddrwg nag o dda.
- Gweithiwch i gadw'r pridd yn ffrwythlon
- Ystyriwch y tywydd a thymhorau'r flwyddyn
- Drwy balu yn hwyr yn yr hydref, byddwch yn gallu manteisio ar rew'r gaeaf yn gymorth i chwalu'r pridd
- Dylech dynnu malurion a chwyn o'r llain. Ewch ag unrhyw ysbwriel ac unrhyw ddeunydd na ellir ei gompostio adref gyda chi
- Palwch yr holl chwyn lluosflwydd **ALLAN**
- Palwch yr holl chwyn blynyddol nad ydynt wedi ffurfio'n bennau **I MEWN**
- Wrth ddefnyddio chwynladdwr cemegol, parchwch arddwyr cyfagos a dilynwch argymhellion y gwneuthurwr bob tro

Pa offer y mae arnoch eu hangen?



Dyma'r offer sylfaenol:-

Can dyfrhau, sgyfflar, fforch, rhaw, cribin a thrywel

Dewiswch eich offer yn ofalus, gan na fydd bargeinion rhad yn cynrychioli buddsoddiad da bob tro. Gwnewch yn siŵr fod y pwysau, y siâp, y maint a'r cydbwysedd yn gweddu i chi; dylech allu eu defnyddio'n rhwydd a di-straen. Gall palu achosi problemau cefn, felly'r ffordd orau o gychwyn yw gwneud ychydig yn aml. I bobl sy'n cael anawsterau, ceir offer arbenigol i rwyddhau'r gwaith. Bydd rhai cymdeithasau safle'n cynnig benthyca offer a chyfarpar am bris isel neu'n rhad ac am ddim, yn enwedig whilberi. Holwch eich Ysgrifennydd Safle.

5.0 CANLLAW CYFLYM YNGHYLCH PLANNU

Sut mae cychwyn?

Cyn palu, dylid clirio tir llawn chwyn sydd wedi tyfu'n wyllt drwy bladuro neu strimio ac ychwanegu'r deunydd a dorwyd at y pentwr compost. Yna dylid palu gweddill y chwyn ar yr wyneb i mewn, a phalu gwreiddiau unrhyw chwyn lluosflwydd a welir allan. Os ydych yn ansicr, gofynnwch i ddeiliad llain gyfagos. Ni ddylech fyth gael gwared ag uwchbridd.

Wedi i chi balu dros ran o'r rhandir, os nad ydych yn plannu ar unwaith, gwasgarwch falurion dail pydredig llaith neu gompost hyd at ddyfnder o 75mm, neu gosodwch haen o bolythen mandyllog dros y rhan honno. Bydd y naill ddull neu'r llall yn fodd i atal twf chwyn blynyddol. **Ni ddylech ddefnyddio carped.**

Gweler Adran 7 am wybodaeth ynghylch sut i greu compost

Beth i'w dyfu?

Dewiswch lysiau yr ydych yn mwynhau eu bwyta. Ystyriwch fathau o lysiau y mae'r teulu'n bwyta llawer ohonynt, neu rai sydd fel arfer yn ddrytach i'w prynu o'r siop. Does ond angen i chi edrych o amgylch y safle er mwyn gweld beth y gellir ei dyfu. Gofynnwch i'ch Ysgrifennydd Safle neu ddeiliaid lleiniau eraill pa amrywogaethau sy'n tyfu orau ar safle'ch rhandir.

Bydd defnyddio blwch i atal oerfel neu dŷ gwydr yn cynyddu'r amrywiaeth o ffrwythau a llysiau y gallwch eu tyfu a hefyd yn ymestyn y tymor tyfu. Fodd bynnag, os ydych am ddefnyddio tŷ gwydr, sied neu dwnnel polythen, rhaid i chi **gael caniatâd gan y Cyngor cyn eu gosod.**

Canfyddwch beth yw natur eich pridd

Os ydych yn adnabod eich pridd, gallwch ddewis cynydau fydd yn ffynnu yn y pridd neilltuol hwnnw. Er enghraifft, yn aml ni fydd cynydau gwraidd yn tyfu'n dda iawn mewn pridd cleiog trwm. Ni fydd llysiau brasica (bresych, ysgewyll, blodfresych, brocoli, rwdins a maip) yn tyfu'n dda mewn pridd tywodlyd.

Bydd dyfnder yr uwchbridd yn amrywio rhwng lleiniau'r rhandir. O dan yr uwchbridd, ceir isbridd sydd, yng Nghaerdydd, fel arfer yn gymysgedd o gleiau trwm a siâl.

Bydd "compost" wedi cael ei ychwanegu at y rhan fwyaf o uwchbridd ar y lleiniau yn ystod ei oes, ond mae'n bosibl y ceir achosion lle na roddwyd unrhyw gompost ar yr uwchbridd, ac y bydd yn glai ysgafn/trwm. Gellir gwella hyn drwy ychwanegu tail neu gompost sydd wedi pydru'n dda ar wahanol adegau o'r flwyddyn, ac ar wahanol rannau o'r llain, yn dibynnu ar y mathau o gnydau yr ydych yn bwriadu eu tyfu.

Defnyddir rhandiroedd fel arfer i gynhyrchu llysiau a ffrwythau, ond gellir hefyd eu defnyddio i dyfu blodau neu fel lle cynnau glaswelltog. Beth bynnag fo'r defnydd a wneir ohoni, rhaid cadw'r llain yn daclus a heb chwyn.

Bydd y rhan fwyaf o lysiau'n fodlon mewn pridd sy'n niwtral, neu'n agos at fod yn niwtral, (rhwng 6.5 a 7 ar y raddfa pH). Gellir gwirio natur y pridd drwy ddefnyddio pecyn profi syml sydd ar gael o'r rhan fwyaf o ganolfannau garddio neu DIY. Gellir creu pridd o natur mwy asidig drwy ychwanegu tail, a phridd mwy alcalïaidd drwy ychwanegu calch.

Mae'r cynydau sy'n ffafrio pridd **asid** yn cynnwys tatws, moron, ffa dringo, llus a mafon. Mae'r cynydau sy'n ffafrio pridd **alcali** yn cynnwys bresych, asbarags, betys coch, ysgallddail a mefus.

Cylchdroi cnydau

Caiff cnydau eu cylchdroi er mwyn atal plâu a chlefydau rhag cronni yn y pridd. Bydd hefyd yn ffordd o ailgyflenwi maetholion. Bob blwyddyn, dylid cylchdroi'r cnydau drwy bob adran, fel bo'r pridd drwy'r holl lain yn gwella, a bod yr amodau hefyd yn bodloni gofynion y cnwd a dyfir. Rhannwch y llain yn dair rhan.

Rhan 1 - ei defnyddio i dyfu llysiau brasica (bresych, ysgewyll, blodfresych, brocoli, rwdins, radisy a maip).

Rhan 2 - ei defnyddio ar gyfer cnydau gwraidd (moron, pannas, tatws, salsiffi, artisiogau Jeriwsalem a betys coch).

Rhan 3 - ei defnyddio i dyfu codlysiau (pys, ffa) neu seleri, nionod, pupurau, sbigoglys ac india-corn.

Rhan	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
1	Llysiau Brasica	Cnydau Gwraidd	Codlysiau a Chnydau Eraill
2	Cnydau Gwraidd	Codlysiau a Chnydau Eraill	Llysiau Brasica
3	Codlysiau a Chnydau Eraill	Llysiau Brasica	Cnydau Gwraidd

Ffrwythau

Wrth gynllunio'ch rhandir, penderfynwch yn fuan a ydych am dyfu ffrwythau. Ceir amrywiaeth eang o ffrwythau pen coed a ffrwythau meddal, ac maent oll yn fuddsoddiad tymor hir; gellir disgwyl i fefus hyd yn oed aros ar yr un darn o dir am 3 blynedd, ond gall coed a gellyg aros ar yr un darn o dir am 25 mlynedd. Gan hynny, ni ellir cynnwys y darnau hynny yn y cylchdro cyffredin, a dylid eu trin fel gardd ar wahân.

Bydd gardd sy'n cynnwys coed ffrwythau'n bennaf yn cysgodi cnydau eraill os na roddir digon o sylw i gyfeiriadedd, felly dylai'ch gardd llysiau fod i'r de o'r ffrwythau ar bob achlysur.

Gwrtaith Gwyrdd

Gwrtaith gwyrdd yw cnydau a gaiff eu gwasgaru ar dir i gadw ei ffurf a'i ffrwythlondeb. Gellir ei ddefnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond mae'n arbennig o fuddiol fel gorchudd yn y gaeaf i atal y tir rhag cywasgu a cholli maeth. Gall y testun hwn droi'n gymhleth iawn, yn debyg i'r rhan fwyaf o bethau.

Gall rhai garddwyr organig gyfuno gwrtaith gwyrdd â threfn ofalus i gylchdroi eu cnydau a chompostio fel nad oes angen defnyddio gwrteithiau ychwanegol; bydd eraill yn eu defnyddio'n achlysurol er cyfleustra.

Bywyd Gwyllt ar Randiroedd

Gall safleoedd rhandir a lleiniau fod yn gynefin i fywyd gwyllt. Bydd llwyni a choed yn amgylchynu llawer o safleoedd. Gall plannu blodau a chnydau amrywiol ddenu pryfed. Gall pentyrrau o foncyffion ddenu brogaod a llawer o bryfed eraill buddiol. Gall blychau nythu/clwydo i ystlumod, adar, cacwn, gloynnod byw a buchod coch cwta helpu i gynyddu'r boblogaeth. Gall rhywfaint o ddŵr bas hyd yn oed ddenu madfallod dŵr a brogaod a gwneud y llain ychydig yn fwy diddorol a phleserus.

Cofiwch y gall colomennod ddifetha bresych a bydd y fronfraith a'r fwyalchen, ymysg eraill, yn mwynhau ffrwythau meddal ffres, felly bydd angen i chi osod rhwyd neu gnu i amddiffyn eich cnydau.

6.0 TAI GWYDR, SIEDIAU, TWNELI POLYTHEN A STRWYTHURAU ERAILL

Os ydych am osod sied, tŷ gwydr, twnnel polythen, cawell ffrwythau neu unrhyw strwythur arall ar eich llain, bydd arnoch angen caniatâd gan y Cyngor cyn eu gosod.

Os rhoddir caniatâd, gwneir hynny ar y ddealltwriaeth bod eich Ysgrifennydd Safle wedi cytuno ar y deunyddiau ac ar leoliad y strwythur, ac y dylid cael gwared â'r strwythur ac adfer unrhyw ddifrod canlyniadol i'r llain os bydd y Cyngor yn rhoi rhybudd i dynnu'r strwythur o'r safle yn ddiweddarach.

Ceir cyfyngiadau llym ar faint strwythurau, ac ar rai safleoedd ceir cyfyngiadau cynllunio y dylid hefyd eu parchu. Bydd eich Ysgrifennydd Safle yn gallu rhoi cyngor i chi ynglŷn â'r materion hyn.

Gofynnwch i'ch Ysgrifennydd Safle am ffurflen gais. Bydd yr Ysgrifennydd Safle yn llenwi'r ffurflen gyda chi, yn ei hanfon i'r Cyngor i'w chymeradwyo ac yn eich hysbysu ynghylch canlyniad eich cais.

7.0 CYNNAL LLAIN IACH

Compostio

Bydd creu compost o'ch gwastraff gardd yn talu ar ei ganfed. Mae'n hawdd ac yn rhad ac am ddim. Bydd yn eich helpu i leihau llygredd drwy leihau'r deunydd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, a bydd eich planhigion yn tyfu'n iachach ac yn edrych yn well yn ei sgil. Byddwch hefyd yn arbed arian drwy beidio gorfod prynu gwrtaith.

Mae compostio'n sicrhau bod maetholion gwerthfawr yn cael eu dychwelyd i'r ddaear, ac mae gwneud hynny'n cwblhau'r cylchdro - yn rhoi rhywfaint o'r hyn a dynnwyd o'r pridd yn ôl. Does dim rhaid i chi fod yn arbenigwr, bydd compostio'n digwydd fel proses naturiol.

Ceir nifer o finiau a chynhyrchwyr compost pwrpasol ar y farchnad; fodd bynnag, gellir creu bin syml allan o bren. Ceir cyfarwyddiadau ynghylch sut i greu bin o'r fath mewn llawer o lyfrau garddio.

Bydd tomen syml (hyd at 1.2m o ran lled ac uchder) yn ddigon da i ddibenion y rhan fwyaf o ddeiliaid lleiniau. Mae'n well bentyrru'r deunydd mewn haenau cymysg. Gellir cynnwys a thaenu ychwanegion rhwng yr haenau er mwyn "cychwyn" y domen, e.e. tail anifeiliaid, gwrtaith nitrogenaidd, neu fwcad o ddeunydd o domen flaenorol.

Ychwanegwch ddŵr at y domen i'w chadw'n llaith wrth bentyrru deunydd arni. Bydd tomen o'r maint hwn yn cynhesu'n gyflym, gan gyrraedd ei huchafswm tymheredd mewn tua wythnos, ac yna'n oeri o fewn mis; bryd hynny dylid troi'r domen, gan symud yr haenau allanol i'r canol, cyn y ceir ail gyfnod llai dwys o gynhesu. Bydd y compost wedyn yn barod i'w ddefnyddio cyn pen 3 i 6 mis ar ôl dechrau creu'r domen.

Mae'n well selio marchwellt a thaglys etc. yn wlyb mewn bag plastig di-draidd a gadael iddynt chwysu am amryw o fisoedd cyn ychwanegu eu gweddillion pydredig at y domen gompost.

Gellir torri deunydd coediog neu ei falu'n ddarnau mân a'i ychwanegu at y domen neu'i ddefnyddio'n uniongyrchol fel gorchudd ar y ddaear.

Cyflenwadau dŵr y rhandir

Ym mwyafrif o safleoedd rhandir y Cyngor, bydd y cyflenwad dŵr yn cael ei ddiffodd yn ystod misoedd y gaeaf, fel arfer yn hwyr yn yr hydref. Gwneir hyn er mwyn atal rhew rhag difrodi'r pibellau o dan y ddaear, oherwydd byddai hynny'n arwain at filiau atgyweirio costus iawn. Caiff y cyflenwad ei ailgysylltu yn y gwanwyn.

Bwriedir i'r cyflenwad dŵr a ddarperir ar bob safle rhandir gael ei ddefnyddio ar gyfer garddwriaeth yn unig. Er bod y cyflenwad o ansawdd dŵr prif gyflenwad, mae'r safbibellau a'r cafnau dŵr yn agored i'r elfennau ac i gael eu difwyno gan ffynonellau eraill. Argymhellir felly nad yw tenantiaid yn yfed dŵr o'r cyflenwad ar safle'r rhandir.

Hysbyswch y Cyngor a'r Ysgrifennydd Safle am unrhyw broblemau gyda'r cyflenwad dŵr, neu unrhyw ddifrod iddo.

Casglu dŵr glaw

Gallwch gasglu dŵr glaw mewn tanciau dŵr ar eich llain. Bydd hyn yn lleihau'r angen i gludo dŵr ar draws y safle. Mae dŵr yn adnodd gwerthfawr yn yr haf, felly gwnewch ddefnydd cynnil ohono. Ni chaniateir defnyddio pibellau dŵr.

8.0 IECHYD A DIOGELWCH AR RANDIROEDD

- **Cemegion/Plaleiddiaid** – dylid eu cadw yn eu cynhwysydd gwreiddiol a'u defnyddio'n unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.
- **Llygod mawr, gwenyn a gwenyn meirch** – Os ceir unrhyw dystiolaeth o'r plâu hyn, dylid hysbysu'r Cyngor a fydd yn cymryd camau angenrheidiol i'w rheoli
- **Pecyn Cymorth Cyntaf** – Argymhellir eich bod yn cadw pecyn cymorth cyntaf wrth law wrth i chi weithio ar eich llain.
- **Hylendid** – Dylid golchi'r holl gynnyrch yn drylwyr er mwyn cael gwared â phob arlliw o bridd cyn ei goginio neu ei fwyta.
- **Asbestos** – Ni ddylid defnyddio asbestos ar unrhyw ffurf ar eich llain rhandir.

9.0 GWYBODAETH BELLACH:

Gwasanaethau Parciau Cyngor Caerdydd

King George V Drive East, Parc yr Heath, CAERDYDD CF14 4EP

Ffôn: (029)20684000

e-bost: parciau@caerdydd.gov.uk

www.caerdydd.gov.uk/parciau

Cymdeithas Deiliaid Rhandiroedd Caerdydd

Mrs Dawn Gibbens, Cadeirydd

Rhif Ffôn: (029)20362176

Garden Organic (HDRA)

Garden Organic, Ryton, COVENTRY CV8 3LG

Rhif Ffôn : 02476)303517

www.gardenorganic.org.uk

Ceir llawer o lyfrau am dyfu llysiau a ffrwythau mewn **Llyfrgelloedd Lleol**.

The Allotments and Gardens Council (UK)

7 Mattingly Road, Hempshill Vale, NOTTINGHAM NG6 7BD

Rhif Ffôn: (01159)276860

www.theallotmentsandgardenscounciluk.org.uk

The National Society of Allotment and Leisure Gardeners Ltd

O'Dell House, Hunters Road, CORBY, Northants NN17 5JE

Rhif Ffôn: (01536)266576

www.nsalg.org.uk

The National Society of Allotment and Leisure Gardeners Ltd

Mrs Judith Hill, Cynrychiolydd Caerdydd

Rhif Ffôn: (029)20758080

e-bost: rich4you@sky.com

Y Gymdeithas Lysiau Genedlaethol

Mr Ivor Mace FNVS 2 Mace Lane, Ynyswen, Treorci,

Rhondda CF42 6DS

Ffôn: (01443)775531

e-bost: ivormace@hotmail.com

Cystadleuaeth deiliaid Rhandiroedd Caerdydd

Noddir gan: Canolfan Arddio Caerffili

